| | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Cabinet** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **24 Medi 2013** |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | **Cynghorydd Eryl Williams, Aelod Arweiniol Addysg** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Pennaeth Addysg** |
| **Teitl:** | **Gwasanaeth Cefnogi Synhwyrau Gogledd Ddwyrain Cymru** |

---

**1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

1.1 Ffurfio Gwasanaeth Cefnogi Synhwyrau Gogledd Ddwyrain Cymru, mewn partneriaeth â Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam a Chyngor Sir y Fflint.

**2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

2.1 Adrodd ar y cynnydd i greu gwasanaeth synhwyraidd isranbarthol a gofyn i'r Cabinet gymeradwyo'r penderfyniad i symud at fodel darparu partneriaeth.

**3. Beth yw'r Argymhellion?**

3.1 Bod aelodau yn cydnabod y camau gweithredu cadarnhaol a gymerwyd i wella'r gwasanaeth sydd ar gael i blant a phobl ifanc sydd wedi colli eu synhwyrau ar draws Sir y Fflint, Wrecsam, a Sir Ddinbych.

3.2 Bod y penderfyniad i symud at wasanaeth isranbarthol yn cael ei gymeradwyo gan y Cabinet.

**4. Manylion am yr Adroddiad.**

4.1 Mewn ymateb i'r gyfarwyddeb gan Lywodraeth Cymru i gynyddu cydweithio a gweithio mewn consortiwm, nodwyd posibilrwydd o ffurfio Gwasanaeth Synhwyrau rhanbarthol fel blaenoriaeth gan Swyddogion Cynhwysiant ar draws Gogledd Cymru. Mae gwasanaethau nam ar y synhwyrau yn fach ac yn arbenigol iawn mewn llawer o awdurdodau. Byddai cydweithio yn caniatáu rhagor o hydwythedd ac effeithlonrwydd drwy raddfa fwy. Byddai hefyd yn galluogi defnyddwyr gwasanaeth i fanteisio drwy sicrhau bod amrywiaeth fwy o staff arbenigol ar gael i gefnogi plant a phobl ifanc, a'u teuluoedd a'u gofalwyr. Yn dilyn cyfres o gyfarfodydd eglurhaol gyda chynrychiolaeth o chwe Awdurdod Lleol Gogledd Cymru, aeth swyddogion o Wrecsam, Sir Ddinbych a Sir y Fflint ymlaen i gwmpasu gwasanaeth i gynnwys Gogledd Ddwyrain Cymru.

4.2 Datblygodd y tri awdurdod achos busnes llawn (gweler Atodiad 1). Mae Cyngor Sir y Fflint wedi'i nodi fel awdurdod cynnal ar gyfer y gwasanaeth newydd.

4.3 Mae Swyddogion ar draws y tri awdurdod wedi gweithio gyda staff gwasanaeth presennol a swyddogion eraill i greu'r Cytundeb Partneriaeth (gweler Atodiad 2)

a dogfennau cysylltiedig eraill ynghyd â model gwasanaeth llawn ar gyfer darparu.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1 Mae addysg wedi'i nodi fel blaenoriaeth gorfforaethol. Mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y flaenoriaeth hon gan y bydd yn sicrhau cynaliadwyedd gwasanaeth bach ond arwyddocaol; ac yn diogelu hawl plant a phobl ifanc sydd â'r math hwn o angen dysgu ychwanegol i gael mynediad i gefnogaeth briodol.

## 6. Beth fydd yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1 Mae'r model gwasanaeth wedi'i ddatblygu i gyd-fynd â'r gyllideb bresennol gyfun a ddyrannwyd i ddarpariaeth synhwyraidd gan y tri ALl. Rhagwelir y bydd effeithlonrwydd yn cael ei chynhyrchu drwy'r cydweithredu rhanbarthol, yn enwedig o ran offer ac adnoddau. Wrth i'r gwasanaeth ennill ei blwyf dros amser, gall fod yn bosibl nodi ffyrdd mwy effeithlon o weithio gyda disgyblion, rhieni ac ysgolion gan arwain at lefelau staffio is ac arbedion o ganlyniad i hyn.

6.2 Mae'r Cytundeb Partneriaeth yn amlinellu'r trefniadau ariannol rhwng yr awdurdod cynnal (Sir y Fflint) a Wrecsam a Sir Ddinbych, gan nodi'r manylion am ddarpariaeth a phroses. Mae'r Cytundeb yn nodi'n glir cyfrifoldebau ariannol a rennir pob partner o ran staff ac asedau pe bai'r Bartneriaeth yn dod i ben.

## 7 Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd ac a gynhaliwyd Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb?

7.1 Nodwyd y byddai ymgynghoriad yn ddigwydd gyda phob aelod o staff gwasanaeth a'u cynrychiolwyr undeb. Mae swyddogion hefyd wedi cysylltu â gweithwyr proffesiynol Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a'r sector gwirfoddol o ran y newidiadau arfaethedig o ran darparu gwasanaeth.

7.2 Consultation had been identified to take place with all service staff and their union representatives. Officers have also liaised with Betsi Cadwallader University Heath Board professionals and the voluntary sector regarding the proposed changes in service delivery.

7.3 Mae Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi'i gwblhau ac mae ynghlwm wrth Atodiad 3. Ystyrir y bydd y datblygiad isranbarthol yn darparu manteision cadarnhaol i blant a phobl ifanc sydd wedi colli eu synhwyrau.

## 8. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

8.1 Bydd y model gwasanaeth yn arwain at wasanaeth mwy effeithlon ac effeithiol y gellir ei ddarparu o fewn y gyllideb bresennol. Gall fod yn bosibl nodi arbedion yn y gyllideb yn y blynyddoedd nesaf. Rhaid i'r rheolaeth ariannol a threfniadau llywodraethu a gynigir yn y cytundeb drafft gael eu hasesu gan yr adain Gyllid cyn cymeradwyaeth derfynol.

**9. Pa risgiau sy’n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i’w lleihau?**

Y risg gyffredinol yw’r diffyg gallu i ddarparu’r amrywiaeth o wasanaethau sy'n ofynnol gan blant a phobl ifanc, a chynaliadwyedd y gwasanaeth yn y dyfodol yn y model presennol.

**10 Pŵer i wneud y Penderfyniad**

S13 Deddf Addysg 1996
S101 Deddf Llywodraeth Leol 1972